# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 7 RHAGFYR 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Chris Davis a/ac Sanders |

## 43 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ralph Cook a Julia Magill; rhodd y Cynghorwyr Davies a Sanders wybod yn flaenorol y bydden nhw'n cyrraedd yn hwyr.

## 44 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y Cynghorydd Sanders fuddiant personol ynghylch eitem 4 gan fod aelod teulu yn derbyn Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cartref.

## 45 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd yn gyfnod cywir a fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

## 46 : TALIADAU UNIONGYRCHOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod Cabinet (Iechyd, Tai a Llesiant), Tony Young Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sarah McGill Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion; Denise Moriarty Prif Swyddog Cynllunio Strategol Anableddau Dysgu (Caerdydd a'r Fro) and Sam Harry Rheolwr Categori Comisiynu a Chaffael i'r cyfarfod.

## 47 : TAI'R SECTOR RHENT PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire, Aelod Cabinet (Amgylchedd); Dave Holland, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth a Rheoliadol, Will Lane, Rheolwr Gweithredol, Amddiffyn y Cyhoedd a Bethan Jones Rheolwr Gweithredol, Rhentu Doeth Cymru i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd fod heriau mawr wedi bod gyda Rhentu Doeth Cymru, mae wedi bod yn gromlin dysg fawr ac nid yw'r holl atebion wedi'u cael hyd yn hyn.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr aelodau a oes rhestr sydd ar gael yn gyhoeddus o bwy sydd wedi'i drwyddedu ym mhob ward dan y cynllun trwyddedu ychwanegol, gan gynnwys pwy sydd wedi'i geryddu, y gall Cynghorwyr a thrigolion edrych arni. Esboniodd swyddogion fod cofnodion trwydded yn gyhoeddus a'u bod ar gael ar gais yn y gofrestr drwyddedau, sy'n ddogfen Excel; i'r cyhoedd eu harchwilio; nid oes rhestr o erlyniadau; ond cyhoeddir erlyniadau proffil uchel trwy'r cyfryngau. Dywedodd swyddogion fod Gwasanaethau a Rennir yn cynllunio defnyddio ei wefan i gyhoeddi rhestr o erlyniadau.

- Gofynnodd aelodau, gyda staff wedi'u had-drefnu, a yw swyddogion yn gallu ymdrin â'r holl fan droseddau; dywedodd swyddogion fod sylfaen tai mawr iawn, mae cwynion o safonau gwael o ran gwaith atgyweirio ac ati ac mae eiddo wedi gwaethygu ers iddyn nhw gael eu trwyddedu pum mlynedd yn ôl. Dywedodd swyddogion mai'r gobaith olaf yw erlyniad ac mae'n golygu eu bod wedi methu â pherswadio pobl i gyflawni'r safon. Mae llwythi gwaith yn uchel ac mae staff yn ymdrin â materion y tu allan i'r cynlluniau ledled Caerdydd. Rhaid i swyddogion flaenoriaethu gan fod y sylfaen staffio ym mhob rhan o Wasanaethau Rheoliadol a Rennir ardaloedd y tri awdurdod lleol tua 23% yn llai nag a fu.

- Gan gyfeirio at Gyflwyniad Cymdeithas Landlordiaid Preswyl, gofynnodd yr aelodau a oes unrhyw ffigyrau i brofi bod ansawdd gwell gennym; esboniodd swyddogion eu bod dal i gymryd camau gorfodi i godi safonau eto, mae angen hyn i amddiffyn iechyd y cyhoedd.

- Gofynnodd yr aelodau, ynglŷn â Rhentu Doeth Cymru, mewn perthynas â sefydlu'r broses ac adnoddau ar ddiwedd y broses, a oes gorfodi a chosbau digonol ar waith i wella a chynnal safonau. Dywedodd swyddogion, fel rhan o gyflwyno cynllun Rhentu Doeth Cymru, i Lywodraeth Cymru sicrhau arian fel y gallai'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir hybu'r cynllun. Crëwyd model ariannol gyda'r bwriad o adennill costau'n llawn gan gynnwys gorfodi, cydymffurfiaeth ac ati. Fe'i crëwyd ar sail llawer o dybiau ac felly mae angen ei adolygu'n rheolaidd. O ran adnoddau, mae'r model yn rhoi cyfartaledd, ond bydd galw'n cynyddu a gostwng, nid oes cwynion wedi'u derbyn am anallu'r gwasanaeth i ymdopi ond ar hyn o bryd gyda llai o alw mae'n ymdopi'n dda.

- Roedd aelodau'n bryderus na fyddai digon o adnoddau er mwyn cydymffurfio; dywedodd swyddogion ei bod yn ymwneud â darparu'r adnodd cywir pan fo angen, y canolbwynt cyfredol yw cofrestru Landlordiaid ar y cynllun yn awr, byddai'r canolbwynt hwn yn newid yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

- Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar eiddo gwag yn y sector preifat. Mae swyddogion wedi esbonio'n flaenorol i'r aelodau nad ydynt wedi pontio'r mater hwn yn iawn trwy'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, mae cyfarfodydd bellach wedi'u cynnal a chytunwyd gyda Chyfarwyddwr Cymunedau, tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid y anfonir swp-lythyrau i'r 150 o eiddo ar y rhestr; byddai 20 o eiddo a fyddai'n cael eu hadfer i'w defnyddio eto erbyn diwedd y flwyddyn a bydd y sefyllfa'n gwella yn 2017/18. Byddai map ffordd yn cael ei greu ar gyfer yr aelodau gyda gwybodaeth am le i fynd pan ddeuir o hyd i broblemau. Mae swyddogion wedi edrych ar rolau, gwasanaethau, sut y cânt eu darparu a sut mae'r aelodau'n cael mynediad at wybodaeth.

- Cyfeiriodd yr aelodau at gyflwyniad Undeb y Myfyrwyr a gofynnon nhw ba waith sy'n cael ei wneud gyda nhw ynghylch gwybodaeth, cyfathrebu, gwaith cynghorwyr ward ac ati. Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio gyda nhw ar faterion ehangach o integreiddio myfyrwyr; yn wir, mae Caerdydd yn enghraifft ledled y DU am ei gwaith o gyfathrebu â myfyrwyr. Mae materion penodol gyda chynllunio, swyddogion cynllunio, adlewyrchiad o alw posibl a dwysedd Tai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd penodol. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yna Hyrwyddwyr Amgylchedd Myfyrwyr; mae swyddogion yn mynd o ddrws i ddrws i sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod sut i gadw’r ardal yn daclus ac ati. Mae’r Brifysgol yn cydnabod y materion ac wedi rhoi arian i’r Cyngor i barhau’i gwaith.

- Gofynnodd yr aelodau ba ganran o fyfyrwyr sy’n rhentu Tai Amlfeddiannaeth; nid oedd gan swyddogion y ffigyrau ond nodon nhw fod mwy o Dai Amlfeddiannaeth heb fyfyrwyr ym Mhlasnewydd; byddai swyddogion yn rhoi’r wybodaeth hon i’r aelodau.

- Nododd yr aelodau’r gwahaniaeth enfawr rhwng y rhai hynny sydd wedi cwblhau hyfforddiant a’r rhai hynny sydd wedi cofrestru a gofynnon nhw a allen nhw gofrestru heb gyflawni hyfforddiant. Esboniodd swyddogion bod angen trwydded ar unrhyw landlord sy’n rheoli neu osod eiddo, i gael y drwydded bydd yn rhaid iddynt wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae dros 30k wedi cofrestru ym mis Tachwedd, ar ôl eu cwblhau, mae cofrestriadau'n para am 5 mlynedd. Cymerir camau gorfodi yn erbyn y rhai hynny nad ydynt wedi'u trwyddedu.

- Gofynnodd yr aelodau faint o ymgeiswyr sydd wedi'u gwrthod a dywedwyd wrthynt fod 2 wedi'u gwrthod yn disgwyl am ganlyniad gan Dribiwnlys Tai. Roedd y broses yn drwyadl gyda llawer o gamau, megis hunanddatgelu a gwirio yn erbyn cofrestri erlyniadau ym mhob un o 22 Awdurdod Cymru.

- Gofynnodd yr aelodau sut byddid yn dod o hyd i’r rhai hynny nad ydynt yn cofrestru a sut y byddid camau'n cael eu gweithredu. Dywedodd yr Aelod Cabinet eu bod wedi disgwyl ychydig wrthodiadau gan fod y mater ymhellach ymlaen yn y broses pan fo cwynion yn digwydd; bygythiad colli trwydded, wedi gwneud yr hyfforddiant ac ati. Dywedodd swyddogion mai partneriaid Awdurdod Lleol fel Budd-dal Tai fydd llygaid a chlustiau’r rhai hynny nad ydynt wedi cofrestru, ac y ymchwilir i bobl; byddid yn edrych ar yr holl gydymffurfiaeth eto ymhen 5 mlynedd pan fo adnewyddu.

- O ran gorfodi, mae swyddogion yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol ac yn gallu cael data gan bartneriaid megis budd-dal tai ledled Cymru, gellir defnyddio data i ddod o hyd i landlordiaid a hefyd i helpu gyda thwyll, treth gyngor ac ati.

- Gofynnodd yr aelodau pryd gwelir buddion o’r cynllun a sut y byddai buddion ar gyfer tenantiaid yn cael eu mesur. Esboniodd swyddogion y byddai Llywodraeth Cymru yn gwerthuso’r project, mae adroddiad gwaelodlin wedi’i gyhoeddi ychydig wythnosau yn ôl a byddai un arall ymhen 2/3 blynedd. Dywedodd swyddogion fod mesur yn fwy anodd, gellir dadlau y gall gyhoeddi sut i gwyno a beth yw hawliau tenantiaid gynyddu'r cwynion, yn enwedig yn gyntaf. Prif ddangosydd o ba mor dda y mae’r sector rhent preifat yn

gweithredu yw'r arolwg cyflwr tai; bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â hyn yn y man a gobeithio y gwelir cyflyrau gwell. O ran canlyniadau a'r hyn y maen nhw'n ei olygu, mae'n ymwneud â thrio cael gwybodaeth, canlyniadau camau gweithredu wedi'u cymryd.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

48 : BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedodd yr aelodau fod yr holl ohebiaeth yn gyfredol; mae'r aelodau wedi cael copïau o ymatebion, hefyd copïau o nodiadau gan y Panel Perfformiad, y disgwylir iddo gwrdd nesaf ar 12 Rhagfyr i ystyried adroddiad monitro Mis 6 ac agwedd Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ar gyfer y gyllideb.

Cynhaliwyd cyfarfod trafodaeth ddwys yr Addasiad Anabl ac mae'r nodiadau'n cael eu hysgrifennu ar hyn o bryd.

Trafododd yr aelodau'r rhaglen waith a chytunon nhw i symud yr eitem Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol arfaethedig o fis Ionawr 2017 i fis Mawrth 2017 i alluogi craffu cyn penderfyniad ar Adroddiad y Cabinet ynghylch Taliadau Uniongyrchol ym mis Ionawr 2017.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

49 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Oedolion ddigwydd am 5.00pm 18 Ionawr 2017 yn Ystafell Bwyllgor 4 Neuadd y Sir Caerdydd.